

Cartrefi Caerffili

Rhifyn 10

Haf 2017

DIGWYDDIAD CYFWELD CYFLYM A GYNHALIWYD AR GYFER CEISWYR GWAITH

Mae digwyddiad cyfweld diweddar yn arddull 'caru cyflym' wedi gweld ceiswyr gwaith ym mwrdeistref sirol Caerffili yn ymarfer eu sgiliau cyfweld, wrth anelu hefyd at sicrhau cyfle lleoliad gwaith.

Trefnwyd y digwyddiad, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Arloesi Tredomen, gan y timau sy'n cyflwyno rhaglenni cymorth cyflogaeth Cymunedau ar gyfer Gwaith a Liff Llywodraeth Cymru yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Ariennir y rhaglen Cymunedau ar gyfer Gwaith gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Roedd ein tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai yn un o'r cyflogwyr oedd yn cyfweld ag ymgeiswyr yn y digwyddiad, ynghyd â nifer o'n cyflenwyr a'n contractwyr. Roedd y rhain yn cynnwys Robert Price Builders' Merchants (ein partner cyflenwi ffynhonnell unigol) a Newire un o'u cyflenwyr.

Roedd Vinci, un o'r contractwyr sy'n helpu i gyflawni gwaith mewnol fel rhan o'n rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), yno hefyd gyda'u his-gontractwr I & N Watts. Derbyniodd y cyngor £7,340,000 gan Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 sydd wedi cyfrannu at welliannau SATC.

Roedd Eon, ein partner wrth gyflawni gwaith effeithlonrwydd ynni ym Mharc Lansbury, hefyd yn cyfweld am gyfleoedd lleoliadau gwaith, ynghyd â'u contractwyr Elite a SAM Drylining. Mynychodd y darparwr hyfforddi a llwybrau cyflogaeth yng Nghaerffili Train and Grow hefyd y digwyddiad.

Dywedodd y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Gartrefi a Lleoedd, "Roedd y digwyddiad hwn yn darparu ystod eang o gyfleoedd i gyfranogwyr; yn ogystal â helpu i ddatblygu sgiliau mewn cyfweiliad, roedd hefyd yn helpu i fagu hyder ac, yn hytrach na bod yn gyfweiliadau ffug, roedd cyfleoedd go iawn ar gael gyda chyflogwyr.



Hoffwn ddiolch i'r cyflogwyr a fynychodd ar y diwrnod am eu hymrwymiad i helpu'r cyngor i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith ymarferol i bobl leol. Bydd y profiad y bydd unigolion yn ei ennill o'r lleoliadau hyn yn amhrisiadwy wrth eu helpu i ddod o hyd i waith."

Am ragor o wybodaeth am raglenni cymorth cyflogaeth Cymunedau ar gyfer Gwaith neu Lift ym mwrdeistref sirol Caerffili, cysylltwch ag Andrew Griffiths, Uwch Fentor Cyflogaeth, ar 01443 866392 neu drwy anfon e-bost at cymunedauyngyntaf@caerffili.gov.uk.



Caerphilly Homes
Cartrefi Caerffili



13701

Defnyddio cerbydau oddi-ar-y-ffordd yn ddiogel ac yn gyfreithlon

Gallwch ond reidio cerbydau oddi-ar-y-ffordd yn gyfreithlon, e.e. beiciau a beiciau cwad, ar dir lle mae'r tîrfeddiannwr wedi rhoi eu caniatâd, neu os yw'r cerbyd yn gyfreithiol i'r ffordd (h.y. bod platiau rhif arno), yna gellir ei yrru'n gyfreithlon ar y ffordd, os oes gan y reidiwr treth, yswiriant a thrwydded yrru.

Mae'n anghyfreithlon i chi reidio'ch cerbyd oddi-ar-y-ffordd ar unrhyw dir, oni bai bod perchennog y tir wedi rhoi eu caniatâd.

Mae hyn yn cynnwys:

- **Tir Comin** ■ **Rhostiroedd** ■ **Llwybrau Troed**
- **Llwybrau Meirch** ■ **Cilffyrdd cyfyngedig**
- **Llwybrau cludo camlesi** ■ **Rheilffyrdd segur**
- **Ffyrdd**, gan gynnwys Lonydd Gwyrdd sy'n cael eu nodi fel ffyrdd (os nad oes gennych drwydded yrru, yswiriant, treth, MOT ac os nad oes gan y beic platiau rhif)
- **Ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus**



Os cewch eich dal yn reidio'ch beic, beic cwad neu gerbyd oddi-ar-y-ffordd arall yn anghyfreithlon, yna gallech wynebu'r canlynol:

- **Gall eich cerbyd gael ei gymryd i ffwrdd gan yr heddlu**
- **Gallwch gael eich adrodd i ymddangos yn y llys**
- **Gall Heddwesion cyhoeddi Hysbysiad Adran 59.** Os ydych yn cael eich dal yn gyrru ar dir heb ganiatâd y perchennog tir. Os ydych yn derbyn dau rybudd mewn 12 mis, yna bydd eich cerbyd yn cael ei gymryd i ffwrdd a bydd rhaid i chi dalu i'w gael yn ôl. Os nad ydych yn talu, yna bydd yn cael ei fathru.

Cymerwyd y wybodaeth o wefan Heddlu Gwent www.gwent.police.uk

Adnewyddu yn dechrau ar Westy'r Oakdale hanesyddol

Dechreuodd gwaith ym mis Ebrill ar safle hen Westy'r Oakdale; wedi ei leoli ym mhentref glofaol hanesyddol Oakdale.

Bydd rhaglen adnewyddu helaeth yn gweld y cyn-dafarn tri llawr rhestredig Gradd II yn cael ei drawsnewid i fod yn 12 cartref dau a thri gwely. Contractwyr lleol M & J Cosgrove sy'n ymgymryd â'r gwaith, a disgwylir iddynt gwblhau'r gwaith erbyn hydref 2018.

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno drwy weithio mewn partneriaeth rhwngom ni, Grŵp Pobl a Llywodraeth Cymru. Bydd y cartrefi gorffenedig yn cael eu rheoli gan y landlord cymdeithasol cofrestredig Charter Housing sy'n rhan o Grŵp Pobl. Mae Partneriaeth Gymunedol Oakdale a Phenmaen hefyd wedi bod â rhan fawr yn nyluniad yr adeilad.

Mae dros £1.7 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y prosiect, sy'n cynnwys cyfraniad o ychydig dros £1 filiwn o gronfa Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Yn hanesyddol, cafodd Oakdale ei gynllunio fel pentref model gan berchnogion Cwmni Haearn a Glo Tredegar. Adeiladwyd Gwesty'r Oakdale fel bod gan gyfarwyddwyr

Cwmni Haearn a Glo Tredegar rywle i aros yn agos i'r pwll glo; cafodd y gwesty hefyd ei ddefnyddio ar gyfer diddanu ymwelwyr a chynnal cyfarfodydd y Bwrdd.

Mae'r adeilad wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd ac rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda Grŵp Pobl i roi'r adeilad hanesyddol bwysig hwn yn ôl ar waith, wrth hefyd yn creu tai fforddiadwy sydd mawr eu hangen i bobl leol.



Swyddogion o Gartrefi Caerffili a Grŵp Pobl gydag aelodau Partneriaeth Gymunedol Oakdale a Phenmaen

t.2 Rhifyn 10 Cartrefi Caerffili

Trawsnewid Parc Lansbury

Mae cynlluniau uchelgeisiol ar y gweill i drawsnewid Parc Lansbury, Caerffili a bywydau'r bobl sy'n byw yno.

Ym mis Tachwedd fe wnaethom gyhoeddi buddsoddiad o £2 filiwn i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar yr ystâd. Mae'r rhaglen hon nawr ar waith, diolch i bartneriaeth arloesol 'gwydd' rhyngom ni a chyflenwr ynni E.ON. Yn ogystal â gwneud cartrefi'n gynhesach, bydd y cladin allanol sy'n cael ei osod ar yr eiddo hefyd yn trawsnewid ymddangosiad yr ystâd.

Mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r fenter Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni; cynllun effeithlonrwydd ynni a ariennir gan y llywodraeth i helpu lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Ym mis Mawrth cafodd hen bont droed ym Mharc Lansbury ei dymchwel. Mae'r strwythur, sy'n cysylltu Parc Lansbury i Ffordd Bedwas, yn cael ei disodli gan ddarnau newydd o lwybrau troed a chyrbau isel. Dymchwelwyd y bont yn dilyn ymgynghoriad â phreswylwyr ar ôl i adroddiad strwythurol nodi bod angen cryn waith trwsio arni.

Ym mis Ebrill dadorchuddiwyd 'Cynllun Lle Dwfn' ar gyfer Parc Lansbury; glasbrint uchelgeisiol ar gyfer dyfodol yr ystâd. Cafodd y cynllun ei gomisiynu gan y cyngor a'i gynhyrchu gan yr Athro Dave Adamson a Dr Mark Lang.

Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan breswylwyr i sicrhau bod y gymuned yn helpu llunio dyfodol Parc Lansbury. Mae'r Cynllun yn nodi ystod o argymhellion i helpu mynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol a nodwyd fel rhan o'r astudiaeth.

Dywedodd Christina Harrhy, Cyfarwyddwraig Gorfforaethol Cymunedau'r cyngor "Mae'r cyngor wedi addo i wneud popeth o fewn ei allu i drawsnewid dyfodol Parc Lansbury ac mae'r cynllun cynhwysfawr hwn yn darparu fframwaith glir i gyflawni newid a

gwelliant. Fel rhan o'r broses hon, rydym am weithio'n agos gyda'r gymuned i lunio dyfodol cadarnhaol i bawb sy'n byw ar yr ystâd."

Bydd yr ystâd yn elwa o gyfanswm o bron i £11 miliwn a fydd yn helpu trawsnewid ymddangosiad ffisegol yr ardal:

£3.5m ar gyfer gwaith Inswleiddio Waliau Allanol (IWA) i gynyddu effeithlonrwydd tanwydd cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

£3.5m ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag IWA (gan gynnwys canopiau ac ati).

£380,000 Cyfraniad i waith IWA i gartrefi preifat a gynhwysir yng nghan 1 wedi'i ariannu drwy Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

£500,000 a ddyrannwyd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol.

£2.9m pwedi buddsoddi'n flaenorol ar gyfer gwelliannau SATC mewnlol h.y. ceginau, ystafelloedd ymolchi newydd ac ati.

£104,000 ar gyfer dymchwel pont droed Parc Lansbury wedi'i ariannu drwy Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

£87,000 ar gyfer dymchwel Canolfan Gymunedol Parc Lansbury wedi'i ariannu drwy Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi cyllid pellach er mwyn cefnogi cyflawni cam 2 y cynllun inswleiddio waliau allanol ar gyfer perchnogion tai preifat, ac ar hyn o bryd rydym yn arolygu cartrefi gyda golwg ar gynnal gwelliannau allanol pellach i gartrefi, sydd yn ychwanegol at y buddsoddi uchod, er mwyn sicrhau bod cartrefi yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.



A hoffech dderbyn mwy o newyddion a diweddariadau?

Os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion o bob rhan o Gartrefi Caerffili yna llofnodwch i dderbyn ein eBwletin rheolaidd.



I gyd sydd rhaid gwneud yw mynd i'r ddolen isod a chliciwch ar **'Cofrestru am hysbysiadau e-bost'** a dewiswch **'Tai'** ynghyd ag unrhyw bynciau eraill y mae gennych ddiddordeb ynddynt.

www.caerffili.gov.uk/cadwmewncyswllt

Mae hefyd gennym fwletin **'Tai'n barod i'w rhentu'** sy'n rhoi manylion tai cyngor sydd ar gael i'w rhentu.

Arolwg gwasanaeth garddio

Yn y rhifyn diwethaf o'r cylchlythyr hwn, fe wnaethom ofyn i chi gysylltu â ni os oedd gennych ddiddordeb mewn defnyddio gwasanaeth garddio, os oedd un ar gael.

Byddem yn awr yn hoffi i chi gysylltu â ni i roi eich barn i ni am yn canlynol:

- A fydddech chi'n defnyddio'r gwasanaeth os oedd un ar gael?
- Faint fydddech yn fodlon talu am y gwasanaeth?
- Am ba fath o waith bydddech yn defnyddio'r gwasanaeth?

Ffoniwch 01433 864262 gyda'ch barn, neu ebostiwch: watkik1@caerffili.gov.uk

Nodwch: Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael ar hyn o bryd, rydym ond angen eich barn ar hyn o bryd i weld os oes galw.

Yn cael atgyweiriadau neu welliannau yn eich cartref?

Beth allech ddisgwyl oddi wrthym a'r hyn rydym yn disgwyl oddi wrthyh chi

Rydym wedi datblygu dogfen o'r enw **'Y Siarter Ymddiried'** sy'n amlinellu ein haddewid i chi am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl oddi wrthym, neu unrhyw gontractwyr sy'n gweithio ar ein rhan, a hefyd yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrthyh chi wrth i ni weithio yn eich cartref.

Beth allech ddisgwyl oddi wrthym

- Wrth ymweld â'ch cartref bydd gweithwyr bob amser yn cyflwyno'u hunain, esbonio'r rheswm am eu hymweliad a dangos eu cerdyn adnabod.
- Nid oes hawl gan y gweithwyr i ysmygu yn eich cartref.
- Nid oes hawl gan y gweithwyr i ddefnyddio'ch ffôn.
- Gallwch ddisgwyl i'n staff neu gontractwyr i barchu preifatrwydd eich cartref, trwy beidio mynd i rannau o'ch cartref lle nad yw gwaith yn cael ei wneud.
- Dylai lloriau cael eu diogelu gyda chynfasau llwch glân neu dylai'r gweithwyr wisgo gorchuddion esgidiau.
- Ni ddylai gweithwyr byth ddefnyddio iaith y gellir ei hystyried yn amhriodol i eraill, e.e. hiliol, rhywiaethol, sarhaus, anweddus neu amharchus.
- Ni ddylai'r gweithwyr ddefnyddio'ch eiddo, e.e. cadeiriau, byrddau, ysgolion, ac ati. Hefyd, ni ddylent ddefnyddio'ch cegin neu ystafell ymolchi i lanhau offer neu gyfarpar neu gael gwared ar ddeunyddiau dros ben.
- Ni ddylai gweithwyr ddefnyddio'ch toiled neu ystafell ymolchi. Ni ddylai egwyl te neu bryd bwyd gael eu gymryd mewn unrhyw ystafell yn eich cartref.
- Ni ddylai'r radio gael ei chwarae gan y gweithwyr, oni bai eich bod wedi rhoi'ch caniatâd.
- Mae'r cyngor yn gweithredu polisi dim goddefgarwch i alcohol neu gyffuriau yn y gweithle.



Beth rydym yn disgwyl oddi wrthyh chi

- Rydym yn gofyn eich bod yn dangos parch at ein staff neu gontractwyr wrth iddynt weithio yn eich cartref.
- Ni fyddem yn disgwyl i staff weithio mewn cartrefi lle gall tenantiaid fod o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.
- Rydym yn gofyn i chi beidio ag ysmygu mewn mannau lle mae pobl yn gweithio.
- Gofynnwn i chi ddangos parch at staff wrth iddynt fod yn eich cartref trwy beidio â defnyddio iaith a allai gael ei hystyried yn amhriodol i eraill, e.e. hiliol, rhywiaethol, anweddus neu amharchus.
- Peidiwch â gadael plant heb oruchwyliaeth pan fydd gwaith yn cael ei wneud. Ni chaniateir i'n staff a chontractwyr ddod i mewn neu barhau i weithio mewn eiddo lle mae plant o dan 16 oed yn bresennol, oni bai bod oedolyn yn goruchwyllo bob amser.

Llyfrgell Offer i drigolion Graig-y-rhaca!

Mae trigolion Graig-y-rhaca, Caerffili yn cael eu hannog i ddefnyddio Llyfrgell Offer Cymunedol newydd a lansiwyd yn gynharach eleni.

Mae'r Llyfrgell Offer Cymunedol yn darparu trigolion gyda mynediad hawdd i offer sydd angen arnynt er mwyn cyflawni gwaith cynnal a chadw bach gartref. Mae'r offer ar gael i'w llogi am ffi fach ar sail ddyddiol neu'n wythnosol; gan helpu gwneud gwelliannau cartref yn fwy fforddiadwy ar gyfer y rhai ar incwm is.

Mae'r fenter wedi cael ei lansio gan Ganolfan Adnoddau Graig-y-rhaca; menter gymdeithasol sy'n ail-fuddsoddi unrhyw arian y mae'n ei gynhyrchu yn ôl i'r gymuned leol.

Cafodd yr offer llaw eu cyfrannu gan Robert Price Builders' Merchants; partner cyflenwi ffynhonnell sengl, er mwyn gweld os oes galw. Mae grant gan Gronfa Gymunedol Viridor wedi helpu'r Ganolfan Adnoddau i brynu offer pŵer a chyfarpar torri-lawnt ar gyfer y llyfrgell.

Am fwy o wybodaeth am y Llyfrgell Offer Cymunedol galwch mewn i Ganolfan Adnoddau Graig-y-rhaca, 59-71 Gerddi Grays; mae'r ganolfan ar agor rhwng 9am - 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu ffoniwch **Gareth Mitchell** ar **02920 883039**.



t.4 Rhifyn 10 Cartrefi Caerffili

Blwyddyn lwyddiannus arall ar gyfer Lloches Nos Eglwysi Caerffili

Ar 5ed Rhagfyr 2016, agorodd eglwysi ar draws bwrdeistref sirol Caerffili eu drysau i'r digartref am y bumed flwyddyn fel rhan o brosiect Lloches Nos Eglwysi Caerffili.

Mae'r eglwysi yn gweithredu ar sail nos ac roedd y bobl sy'n cysgu allan wedi teithio rhwng 10 o wahanol eglwysi, ar draws y fwrdeistref sirol, nes bod y prosiect yn dod i ben ar 20fed Mawrth eleni. Mae pob eglwys nos yn darparu hyd at 8 o bobl sy'n cysgu allan gyda phryd o fwyd cynnes, lle diogel i orffwys a chwmniaeth, maent hefyd yn cael brecwast a phecyn chinio cyn gadael y bore nesaf.

Dros y cyfnod o 4 mis, roedd Lloches Nos Eglwysi Caerffili ar agor am gyfanswm o 105 o nosweithiau ac wedi darparu 562 o lefydd gwely, gan letya 19 o bobl wahanol sy'n cysgu allan. Yn ogystal â darparu cysgod a phrydau poeth, roedd y rhai oedd wedi defnyddio'r prosiect hefyd yn cael eu darparu gyda chefnogaeth a chynghor hanfodol gan ein Tîm Digartrefedd a'n hasiantaeth bartner Gwasanaethau Cefnogi Cornerstone. O'r 19 o bobl sy'n cysgu allan, cafodd 75% eu hailgartrefu'n llwyddiannus yn sgil y prosiect; 10 mewn cartrefu tenantiaethau preifat ar rent, 2 mewn lleoliadau a gefnogir ac 1 wedi ei letya gan y cynghor. O'r eraill oedd yn cysgu allan, roeddynt naill ai wedi ymddieithrio'u hunain neu wedi eu tynnu oddi ar y prosiect.

Dywedodd Andrew Clarke o'r Gwasanaethau Cymorth Cornerstone Ltd "Yn ogystal â lletya gwesteion yn y lloches nos, aethom i 43 o apwyntiadau iechyd, cofrestrwyd 8 am fudd-daliadau a

gynorthwywyd 2 i mewn i gyflogaeth llawn amser. Cymerodd westai arall ran yn ein proses cyfryngu teuluol ac mae bellach yn ôl yn byw gartref ar ôl cael ei ymddieithrio oddi wrth ei deulu am nifer o flynyddoedd.

Mae yna faterion a sefyllfaoedd anodd iawn i'w reoli bob amser yn ystod y cynllun hwn ac nid oedd eleni'n wahanol, dylai'r Gwirfoddolwyr gael sylw arbennig am ddefnyddio'u sgiliau, amynedd ac ymroddiad i liniaru rhai materion anodd, ond bob amser yn cadw'r croeso cynnes ar gyfer eu gwesteion dro ar ôl tro.

Mae Gwasanaethau Cefnogi Cornerstone yn falch o fod yn rhan o brosiect mor ysbrydoledig ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r cynghor ac eglwysi eto yn y blynyddoedd i ddod."

Mae Lloches Nos Eglwysi Caerffili yn brosiect a arweinir gan wirfoddolwyr, gyda'r gwirfoddolwyr yn allweddol i'w lwyddiant. Mae gan bob eglwys ei Chydlynnydd ei hun sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosiect, gydag o leiaf 10 o wirfoddolwyr bob sifft. Hoffem ddiolch i'r holl Gydlynwyr a gwirfoddolwyr Eglwys a wnaeth rhoi o'u hamser i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl fregus yn ystod misoedd anoddaf y flwyddyn; hebddynt, ni fyddai'r prosiect wedi bod yn bosib.

I gael cynghor a chefnogaeth am unrhyw un a allai fod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, cysylltwch â'n Canolfan Cynghor Tai ar 01443 873552 neu drwy e-bostio cynghoramdai@caerffili.gov.uk



Cyng. David Poole, Arweinydd y cynghor, gyda gwirfoddolwyr yn Eglwys Santes Gwladys

Cartrefi Caerffili Rhifyn 10 t.5

Helpu tenantiaid symud i le llai

Ers i'r tâl tan-feddiannaeth neu'r 'treth ystafell wely' cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2013, rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid cymdeithasau tai i ddatblygu cartrefi newydd i helpu'r tenantiaid hynny sydd angen symud i ddy llai.

Yn 2013 a 2014, gwnaeth Llywodraeth Cymru Grant Tai Cymdeithasol gwerth £40 miliwn ychwanegol ar gael trwy gynllun o'r enw Rhaglen Eiddo Llai. Roedd y rhaglen hon wedi'i hanelu'n benodol at helpu lliniaru effaith 'treth ystafell wely' Llywodraeth y DU. Fe wnaeth ein tîm Strategaeth Dai gynbig llwyddiannus am gyllid o'r rhaglen hon, sydd wedi arwain at nifer o ddatblygiadau tai fforddiadwy yn y fwrdeistref sirol, sy'n cynnwys eiddo un a dwy ystafell wely.

Un datblygiad a gwblhawyd yn ddiweddar, fel rhan o'r rhaglen hon, yw Cwrt yr Orsaf ar safle hen Orsaf Dân Bargod. Mae 22 o gartrefi newydd ar y safle; sy'n cynnwys fflatiau 1 ystafell wely a thair 2 ystafell wely.

Cynhaliwyd adolygiad gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac arweiniodd hyn at y penderfyniad i atgyfnerthu eu gwasanaethau ac i gau nifer o orsafoedd tân. Yn ogystal â chreu defnydd newydd ar gyfer y safle ym Margod, rydym hefyd wedi gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i ryddhau'r tir yn yr hen Orsaf Dân Cefn Fforest ar gyfer tai fforddiadwy.

Mae safle Cefn Fforest yn cael ei ddatblygu gan un arall o'n partneriaid cymdeithasau tai, Grŵp Pobl. Bydd y safle hwn, sydd bron yn gyflawn, yn darparu 10 o gartrefi newydd, yn cynnwys fflatiau 1 gwely, a thair 2 a 3 ystafell wely.

Mae datblygiad hefyd yn mynd rhagddo ar safle arall yng nghanol Caerffili fel rhan o'r Rhaglen Eiddo Llai.

Yn ogystal â chreu cartrefi llai sydd mawr eu hangen er mwyn helpu tenantiaid yr effeithir arnynt gan y 'dreth ystafell wely', mae'r datblygiadau hefyd yn helpu sicrhau manteision ehangach yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys swyddi a chyfleoedd hyfforddiant i bobl leol.



Cwrt yr Orsaf, Bargod

Diogelu'ch cartref a'ch eiddo



**Yswiriant
Cynnwys
Cartref
80p**

Ydych chi wedi meddwl am yr hyn a fyddai'n digwydd os byddwch yn colli unrhyw ddarn o'ch eiddo mewn tân, lladrad neu oherwydd bod pibell wedi torri?

I helpu tawelu'ch meddwl, gallwn ddarparu i denantiaid yswiriant cynnwys cartref y gellir ei dalu bob wythnos gyda'ch rhent, gan ddechrau o ond 80c yr wythnos (ar gyfer tenantiaid dros 60 oed).

Heb unrhyw dâl atodol i dalu ar bolisi safonol cynhwysfawr, a allwch fforddio peidio â chymryd allan yswiriant?

Mae yswiriant difrod damweiniol llawn hefyd ar gael gydag ond tâl atodol o £25. Mae cost yswiriant yn daladwy'n wythnosol a gallwch dalu'r premïymau yswiriant pan fyddwch yn talu'ch rhent.

I wneud cais, ffoniwch ein Hadran Yswiriant ar 01443 863430 neu codwch ffurflen yn eich swyddfa dai leol.

t.6 Rhifyn 10 Cartrefi Caerffili

Canlyniadau etholiadau Grŵp Tasg Cartrefi Caerffili

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i bleidleisio yn yr etholiadau Grŵp Tasg diweddar. Rydym yn falch o gyhoeddi eich tenant-gynrychiolwyr:

Cwm Rhymni Uchaf



Clive Davies



Melanie James

Cwm Rhymni Isaf



Sandra Jones



Yvonne Bryant

Y Cymoedd Dwyreiniol



Ruth Thompson

Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio ar gyfer 2 gynrychiolydd arall ar gyfer y Cymoedd Dwyreiniol - byddwn yn rhoi gwybod i chi!

Yn canolbwyntio ar ... Tai Lloches

Rydym wedi dechrau ar gyflwyno ein gwelliannau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn ddiweddar, mewn cynlluniau tai lloches. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar safleoedd Tŷ Bedwellte, Clôs Gibbs a Lle Palmer yng Nghoed Duon.

Rydym hefyd ar fin dechrau gwaith yn Y Glyn ym Maes-y-cwmwr a Chwrt Horeb, Trinant yn fuan iawn. Rydym hefyd wedi ymweld â nifer o gynlluniau eraill, yn siarad â thenantiaid ynghylch y gwelliannau, a dechrau arolygon i ganfod pa welliannau sydd eu hangen ar bob cynllun.



Tenantiaid yn cymryd rhan mewn sesiwn ganu 'Euraidd' a drefnwyd gan y Cydlynnydd Gweithgareddau Tai Lloches

Mae tenantiaid cynlluniau tai lloches hefyd wedi bod yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau eleni, a drefnwyd gan Liam Bouse, eu Cydlynnydd Gweithgareddau. Yn ogystal â sesiynau ymarfer corff ysgafn a dosbarthiadau TG, mae nifer o gynlluniau tai lloches hefyd wedi cynnal sgysiaid gan Heddlu Gwent. Gwelodd y Pasg nifer o gorau ysgolion cynradd ac iau lleol yn perfformio mewn cynlluniau tai lloches ledled y fwrdeistref sirol. Mae Liam hefyd wedi bod yn brysur yn cynllunio gweithgareddau

cymdeithasol a theithiau dydd eraill i denantiaid tai lloches i fwynhau drwy gydol y flwyddyn.

Oeddech chi'n gwybod bod yna nifer o gartrefi sydd ar gael i'w rhentu mewn cynlluniau gwarchod ledled y fwrdeistref sirol ar hyn o bryd? Os ydych chi, neu berthynas, eisiau byw'n annibynnol, ond mewn cartref llai, haws ei reoli, gyda chymorth, yna efallai bydd tai lloches yn apelio atoch. Bwriad tai lloches yw helpu pobl i aros yn annibynnol, gyda chefnogaeth ar gael lle bo angen. Mae ein cynlluniau tai lloches yn cynnwys byngalos, fflatiau, neu fflatiau un ystafell sydd yn gwbl hunangynhwysol gyda'u ceginau ac ystafelloedd ymolchi eu hunain.

Manteision tai lloches:

- Swyddog Tai Lloches sy'n cwmpasu naill ai bore neu brynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Adeiladau diogel a saff.
- Cyfarfodydd tenantiaid rheolaidd i rannu syniadau a safbwyntiau.
- Digwyddiadau cymdeithasol a mynediad at Gydlynnydd Gweithgareddau.
- Gwasanaeth monitro larwm penodol 24 awr y dydd / 365 diwrnod y flwyddyn.
- Mynediad at asiantaethau eraill, megis help gyda chymorth ariannol.

Mae pobl dros 60 oed, neu sydd ag anabledd, yn gymwys ar gyfer tai lloches.

I ymgeisio ewch i www.homesearchcaerphilly.org neu cysylltwch â'n Tîm Asesu Cofrestr Tai Cyffredin ar 01443 873521

Cartrefi Caerffili Rhifyn 10 t.7

Diogelwch deunydd inswleiddio waliau allanol

Yn dilyn y tân trasig yng Ngorllewin Llundain yn ddiweddar, hoffem dawelu meddyliau tenantiaid ynglŷn â'r math o ddeunydd inswleiddio waliau allanol a ddefnyddiwn ac a allai fod wedi'i osod neu sydd ar hyn o bryd yn cael ei osod i'ch eiddo.


Mae'n amlwg bod ymchwiliadau yn mynd rhagddynt i'r digwyddiad yn Nhŵr Grenfell ond, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r systemau inswleiddio waliau allanol yr ydym wedi eu gosod i'n heiddo yn sylweddol wahanol i'r rheini sydd wedi'u gosod yn Llundain. Nid ydym wedi gosod unrhyw systemau cladio wedi'u hawyru, ac nid ydym wedi defnyddio unrhyw baneli cyfansawdd alwminiwm. Mae'r cynhyrchion rydym yn defnyddio'n cydymffurfio â rheoliadau a safonau diogelwch tân cyfredol ac wedi derbyn Tystysgrif Bwrdd Prydeinig o Agrément (BBA). Mae'r gwaith hefyd wedi'i wneud gan osodwyr cymeradwyedig.

Mae'r systemau wedi'u categorio fel rhai sydd â pherygl isel gyda lledaeniad fflam Dosbarth 0. Yn amlwg, mae yna reoliadau gwahanol sy'n berthnasol i adeiladau uchel, ond nid oes gan Gartrefi Caerffili adeiladau preswyl sy'n cael eu dosbarthu'n adeiladau uchel. Rydym hefyd wedi cymryd rhagofalon ychwanegol yn ein heiddo mewn perthynas â diogelwch tân, drwy ddarparu larymau mwg i bob eiddo a fydd yn galluogi canfod tân yn gynnar.

Mae'n bwysig nad yw unrhyw un yn ymyrryd â nhw mewn unrhyw fodd ar wahân i wasgu'r botwm prawf ar yr uned yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn gweithredu'n gywir.

Os byddwch chi'n dod o hyd i unrhyw broblemau gyda'ch larwm mwg, rhowch wybod i'ch Tîm Atgyweirio Canolog ar 01443 864886.

Ydych chi'n byw mewn eiddo cymdeithasol? Awydd **cyfnewid** cartref?



HomeSwapper yw'r gwasanaeth cyfnewid cenedlaethol **mwya**f ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol sydd eisiau cyfnewid cartrefi yn **lleol** a **chenedlaethol**.

- 9/10 yn darganfod cartref o fewn 24 awr
- Gweld pawb sy'n cyd fynd efo'ch dewis yn syth
- Chwilio am bob cyfnewidiad yn lleol neu'n genedlaethol
- Pob aelod ar gyfartaledd yn darganfod 100+ o gartrefi
- Miloedd o gartrefi yn cael eu hychwanegu bob wythnos
- Creu eich aml-gyfnewidiadau eich hun gyda'n teclynnau unigryw



www.homeswapper.co.uk